

Newid Plentyndod. Newid Bywydau.
Changing childhoods. Changing lives.

# DATGANIAD O DDIBEN

**Gwasanaethau Lleoli gyda Theuluoedd**

**Rhanbarth:** Cymru / Wales

**Dyddiad:** Gorffennaf 2024

**Cofrestrwyd:** Gwasanaeth Maethu

**Corff Cofrestru:** Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

**Rhif Cofrestru:** W/010000722/M001/0006

# Cynnwys

**Adran 1:** Cyflwyniad ........ 03

- Fframwaith cyfreithiol 03
- Statws a chyfansoddiad Barnardo's 03
- Nodau, amcanion a chanlyniadau 04

**Adran 2:** Manylion cofrestru gwasanaeth ........ 07

**Adran 3:** Strwythur staff y gwasanaeth ........ 08

- Swyddi a chymwysterau 09
- Crynodeb o'r staff presennol 10

**Adran 4:** Gwasanaethau a ddarperir ........ 13

**Adran 5:** Recriwtio, cymeradwyo, adolygu a rhoi cymorth i rieni maeth ........ 14

**Adran 6:** Cwynion, honiadau a chwythu'r Chwiban ........ 20

**Adran 7:** Trefniadau llywodraethu a monitro ansawdd ...23

**Adran 8:** Rheoleiddio ac arolygu Gwasanaethau ........ 25

# Cyflwyniad

## Fframwaith cyfreithiol

Datblygwyd y Datganiad o Ddiben hwn yn unol â'r ddeddfwriaeth ganlynol;

- Deddf Plant 1989
- Deddf Plant 2004
- Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008
- Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010
- Amddiffyn Plant yn cefnogi rhieni maeth – Protocol delio â honiadau yn erbyn rhieni maeth (Canllawiau, 2011)
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016
- Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019 a Chanllawiau Statudol - Gwasanaethau Maethu (2019)

Fel rhan o'r gofyniad rheoleiddio, bydd copi o'r Datganiad o Ddiben yn cael ei ddarparu i Arolygiaeth Gofal Cymru [AGC] a bydd yn cael ei roi ar wefan Barnardo's. Mae'r ddogfen hefyd ar gael ar gais i: staff, Awdurdodau Lleoli, rhieni maeth, darpar rieni maeth a phlant.

Paratowyd y Datganiad o Ddiben hwn yn unol â'r gofynion hyn a bydd yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol i staff Barnardo's, rhieni maeth a darpar rieni maeth, Arolygiaeth Gofal Cymru, plant a phobl ifanc a leolir gyda'r gwasanaeth maethu, a hefyd i gydweithwyr o asiantaethau eraill.

Mae'r Datganiad o Ddiben hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n rheolaidd, ac o leiaf bob blwyddyn.

## Statws a chyfansoddiad Barnardo's

Mae Barnardo's yn gwmni cyfyngedig drwy warant (a gofrestrwyd yn Lloegr dan rif 61625) ac yn elusen gofrestredig (rhifau 216250 a SC037605). Fe'i cofrestrwyd

hefyd fel corfforaeth ymddiried ar 16 Rhagfyr 1926. Ei offeryn llywodraethu yw'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu, a ddiwygiwyd yn fwyaf diweddar drwy benderfyniad arbennig a basiwyd ar 17 Gorffennaf 2001.

Mae Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru yn rhan o Wasanaeth Busnes Lleoli gyda Theuluoedd Barnardo's. Mae'r gwasanaeth yn gwasanaethu Cymru gyfan.

Yr Unigolyn Cyfrifol yw Brenda Farrell.

Rheolwr y gwasanaeth yw Martin Kaid.

Cyfeiriad y Gwasanaeth:
Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru,
Tŷ Britannia, Heol Van, Caerffili, CF83 3GG.
Ffôn: 02920 484316

Prif Swyddfa'r Gwasanaeth Lleoli gyda Theuluoedd:
Barnardo's - Youth Village
Hudson Street
North Shields
NE30 1DL
Ffôn: 0191 2963355

Fel sefydliad cenedlaethol, gallwn ddefnyddio adnoddau a chyfleusterau swyddfa fel sy'n briodol, i ddiwallu ein hanghenion busnes, ledled Cymru a'r DU.

## Nodau, amcanion a chanlyniadau

Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru

**Nodau:**
Mae Barnardo's Cymru yn darparu gwasanaethau maethu i blant a phobl ifanc sy'n diwallu eu hanghenion asesedig, drwy baru da a chynllunio cyn-lleoli. Mae'r gwasanaeth yn ceisio cynnal cartrefi sefydlog a sicrhau canlyniadau da i blant, drwy sicrhau bod rhieni maeth yn cael eu recriwtio, eu hasesu, eu hyfforddi a'u cefnogi'n briodol o fewn y rheoliadau gofynnol.

**Amcanion a chanlyniadau**

1. Recriwtio ac asesu rhieni maeth sy'n addas i'w cymeradwyo i ofalu am blant agored i niwed nad ydynt yn gallu byw gyda'u teuluoedd geni.

2. Sicrhau bod ein strategaethau a'n mentrau cenedlaethol i recriwtio rhieni maeth yn cael eu targedu'n briodol fel bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i fyw mewn teulu sy'n gwerthfawrogi, yn cydnabod ac yn cefnogi eu hunaniaeth unigryw a'u hanghenion cysylltiedig.

3. Hyrwyddo ymlyniadau diogel a sefydlogrwydd lleoliadau i blant a phobl ifanc er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i iechyd, addysg, cyflogaeth ac annibyniaeth plant yn y dyfodol.

4. Darparu cefnogaeth, goruchwyliaeth reolaidd a chyfleoedd hyfforddi i alluogi rhieni maeth i ddiwallu anghenion cymhleth y plant yn eu gofal.

5. Sicrhau bod yr holl ofynion rheoliadol yn cael eu bodloni mewn perthynas â chymeradwyo, adolygu a goruchwylio rhieni maeth a pharu plant, a monitro eu bod yn cael eu bodloni drwy brosesau sicrhau ansawdd.

6. Cynnal perthnasau teuluol a phersonol, gan felly hyrwyddo cyswllt rhwng y plant a'u teuluoedd geni a/neu bobl arwyddocaol eraill a chyfathrebu'n effeithiol â rhieni geni fel y bo'n briodol.

7. Galluogi rhieni maeth i baratoi pobl ifanc yn ddigonol ar gyfer y cyfnod pan fyddant yn tyfu'n oedolion drwy ddatblygu eu potensial dysgu a'u sgiliau byw annibynnol a chyllidebu.

8. Hyrwyddo cysylltiadau / partneriaethau gwaith cadarnhaol rhwng asiantaeth faethu Barnardo's ac awdurdodau lleol i hwyluso cyfathrebu a hyrwyddo arferion da er budd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn y gwasanaeth.

9. Sicrhau bod Panel Maethu annibynnol yn gweithredu'n effeithiol yn unol â'r gofynion a bennir gan ddeddfwriaeth mewn perthynas â chymeradwyo rhieni maeth, adolygiadau, honiadau a chwynion.

10. Sicrhau bod y gwasanaeth fel mater o drefn yn gofyn am farn a dymuniadau ei rieni maeth, plant a staff drwy annog ac ystyried adborth mewn cynlluniau datblygu gwasanaeth.

11. Sicrhau y gellir dangos tystiolaeth o welliant a datblygiad parhaus y gwasanaethau maethu drwy ei system sicrhau ansawdd, a strwythurau adrodd cysylltiedig.

12. Darparu staff â'r sgiliau a'r profiad priodol sy'n cael eu goruchwylio'n rheolaidd ac yn cael cyfleoedd hyfforddi a datblygu er mwyn iddynt gyflawni eu rôl, yn unol ag Adolygiadau Datblygu Perfformiad blynyddol unigol.

13. Bydd y gwasanaeth yn sicrhau bod arferion da a'r wybodaeth ddiweddaraf yn cael eu lledaenu i staff drwy gyfarfodydd a digwyddiadau tîm rheolaidd.

14. Bydd y gwasanaeth yn cysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc i weld sut maen nhw ac yn rhoi cyfleoedd iddynt rannu pryderon am eu diogelwch a'u lles. Bydd y gwasanaeth yn rhoi cyfleoedd i blant wneud sylwadau, canmol neu gwyno, a bydd yn darparu gwybodaeth berthnasol fel rhan o'r canllaw gwasanaeth i blant i'w galluogi i roi gwybod am bryderon i gyrff annibynnol.

15. Bydd y gwasanaeth yn defnyddio dulliau neu offer priodol i sicrhau bod plentyn yn gallu deall cyfathrebiadau.

**Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru – Cynnig Cymraeg**

Mae Barnardo's yn dangos parch tuag at yr iaith Gymraeg yn ystod pob gweithgaredd gan gydnabod yr angen i ymateb i anghenion ieithyddol siaradwyr Cymraeg mewn modd priodol. Mae Gwasanaethau Lleoli gyda Theuluoedd Barnardo's Cymru wedi ymrwymo'n llawn i fodloni gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

O fewn Barnardo's Cymru, mae rôl uwch reoli arweiniol yn benodol ar gyfer y Gymraeg a Grŵp Strategaeth Iaith Gymraeg gweithredol sy'n cyfarfod bob chwarter. Mae Barnardo's yn darparu gwasanaethau yng nghadarnleoedd y Gymraeg yng Nghymru; mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a sefydliadau eraill lle mai'r Gymraeg yw iaith busnes.

Rydym yn rhoi 'cynnig rhagweithiol' ar waith yn gyson o ran ein hymrwymiad iaith Gymraeg ar draws ein holl wasanaethau yng Nghymru ac yn gweithredu'n ddwyieithog o ran arwyddion (cyhoeddusrwydd ac adeiladau), hysbysebion, gwefannau, recriwtio a staffio, a deunyddiau cefnogi sy'n sicrhau nad yw'r naill

iaith yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r llall. Rydym hefyd yn ceisio sicrhau'r canlynol yn gadarnhaol:

- Mae pob plentyn, person ifanc a'u teuluoedd yn cael gwybod y gallant gael gafael ar wasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg.
- Y gellir darparu pob gohebiaeth gychwynnol i deuluoedd yn ddwyieithog.
- Bod staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu paru â phlant a theuluoedd sy'n siarad Cymraeg.
- Byddwn yn ystyried y teuluoedd yn y gymuned ac yn gwneud teuluoedd yn ymwybodol o ble y gallant gael gwasanaeth dwyieithog; gan ddarparu capasiti dwyieithog i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n briodol ac yn amserol.

# Manylion cofrestru gwasanaeth

Enw a chyfeiriad y Darparwr Cofrestredig:
Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru,
Tŷ Britannia,
Heol Van,
Caerffili,
CF83 3GG.
Ffôn: 02920 484316

Enw a chyfeiriad yr Unigolyn Cyfrifol:
Brenda Farrell
Family Placement Head Office,
Barnardo's - Youth Village,
Hudson Street,
North Shields,
NE30 1DL.
Ffôn: 0191 2963355

Unrhyw amodau cofrestru ar y Darparwr Cofrestredig:
Nid oes unrhyw amodau ar y darparwr hwn.


Cymwysterau a phrofiad perthnasol y Rheolwr Gweithrediadau Gwasanaeth:

Martin Kaid, Dip SW / ILM 5, Gweithiwr Cymdeithasol cymwysedig ers 2003, wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

# Strwythur staff y gwasanaeth

*Mae'r adran hon yn rhoi manylion am nifer, cymwysterau a phrofiad perthnasol y staff sy'n gweithio at ddibenion yr asiantaeth.*

**<u>Strwythur gwasanaeth, rheoli a staffio</u>**



## Swyddi a chymwysterau

**Unigolyn Cyfrifol**

Mae Brenda Farrell yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Social Work England. Mae ganddi gymwysterau rheoli cydnabyddedig ac mae'n Bennaeth Busnes ar gyfer mabwysiadu a maethu ar ran Barnardo's ledled y DU. Mae'n adrodd i Fwrdd ymddiriedolwyr Barnardo's a Chyfarwyddwr Masnachol yr Uned Datblygu Busnes Gwasanaethau Plant.
Mae gan yr unigolyn cyfrifol ystod benodol o ddyletswyddau a chyfrifoldebau i'w cyflawni fel y nodir yn Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.

**Pennaeth Busnes Cynorthwyol**

Mae Sarah Morgan yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Cymhwysodd Sarah fel Gweithiwr Cymdeithasol yn 2002 a chwblhaodd ei chymhwyster "Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol" yn 2012. Ers iddi gymhwyso, mae wedi gweithio mewn amrywiol dimau gofal plant, gan gynnwys rheoli amddiffyn plant; maethu; a gwasanaethau mabwysiadu mewn awdurdod lleol. Roedd Sarah hefyd yn rheolwr cofrestredig asiantaeth faethu annibynnol am naw mlynedd cyn ymuno â Barnardo's ym mis Mawrth 2022.

Mae'r Pennaeth Busnes Cynorthwyol yn gyfrifol am reolaeth strategol a goruchwylio'r gwasanaeth maethu, ei swyddogaethau a'i feysydd cyfrifoldeb ac mae'n adrodd i'r Unigolyn Cyfrifol.

Y Pennaeth Busnes Cynorthwyol yw'r rhyngwyneb strategol rhwng Gwasanaeth Cymru a gwasanaethau maethu Barnardo's ledled y wlad. Mae gan y Pennaeth Busnes Cynorthwyol gylch gwaith clir i sicrhau ansawdd ac mae'n cyflawni swyddogaeth Swyddog Penderfyniadau'r Asiantaeth.

**Rheolwr Gweithrediadau**

Mae Martin Kaid yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae ganddo Ddyfarniad ILM Lefel 5 mewn Rheoli ac Arwain.

Mae Martin wedi cymhwyso ers 2003, gan weithio yn y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid; fel swyddog i'r Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol, asesydd annibynnol, a rheolwr gwasanaeth ar gyfer Action for Children-Gweithredu dros Blant yn ogystal â Gwasanaethau Plant Barnardo's, cyn dod yn Rheolwr Gweithrediadau Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru.

Mae Martin wedi cael ei gyflogi gan Barnardo's ers 2011.

Y Rheolwr Gweithrediadau sy'n gyfrifol am weithrediad cyffredinol y gwasanaeth maethu i rieni maeth, plant a phobl ifanc. Mae'r Rheolwr Gweithrediadau yn adrodd i'r Pennaeth Busnes Cynorthwyol.

Y Rheolwr Gweithrediadau sy'n gyfrifol am reoli'r gyllideb ac mae'n ymwneud â datblygu a gweithredu nodau ac amcanion strategol y sefydliad. Mae'r Rheolwr Gweithrediadau yn gyfrifol am reoli Rheolwyr Practis, mae'n eistedd ar y Panel yn rôl Cynghorydd y Panel, yn sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n gyfredol, yn cwblhau archwiliadau o'r gwasanaeth i sicrhau safon uchel, ac yn monitro a chynghori ar gwynion a honiadau difrifol gan sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu dilyn a bod mesurau diogelu ar waith.

**Rheolwr Practis**
Mae Chloe yn Weithiwr Cymdeithasol cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae wedi cymhwyso ers 2016 ac mae wedi gweithio mewn gwasanaeth maethu ers 2013, yn gyntaf fel swyddog lleoliadau, cynorthwyydd gwaith cymdeithasol ac yna fel Gweithiwr Cymdeithasol ar ôl cymhwyso.

Ymunodd Chloe â Barnardo's ym mis Mai 2022.

Mae'r Rheolwr Practis yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli'r Gweithwyr Cymdeithasol a Chefnogi. Mae'n adrodd i'r Rheolwr Gweithrediadau.

Mae'r Rheolwr Practis yn gyfrifol am ddatblygu hyfforddiant, recriwtio, asesu a chefnogi gwasanaethau ar gyfer rhieni maeth.

**Gweithwyr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio**
Maent i gyd yn Weithwyr Cymdeithasol cymwysedig sydd wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Maent yn cynnal asesiadau, yn cefnogi ac yn cynnal adolygiadau blynyddol o rieni maeth.

Mae Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio yn gweithio mewn partneriaeth â gweithiwr cymdeithasol y plentyn sy'n derbyn gofal i hyrwyddo canlyniadau da

fel yr amlinellir yn y cynllun gofal a chymorth. Mae Gweithiwr Cymdeithasol sy'n Goruchwylio hefyd yn cefnogi ac yn darparu hyfforddiant, yn cydlynu grwpiau cefnogi ac yn cymryd rhan yn y gwasanaeth cymorth y tu allan i oriau.

**Swyddog Marchnata**
Mae'r Swyddog Marchnata yn rheoli ac yn gweinyddu ymgyrchoedd recriwtio a marchnata i helpu i recriwtio teuluoedd i'r gwasanaeth.

**Gweinyddwyr Gwasanaeth**
Mae Uwch Weinyddwyr Gwasanaeth yn ymgymryd â dyletswyddau ariannol yn y gwasanaeth maethu gan gynnwys anfonebu, taliadau rhieni maeth, rheoli credyd a chyfrifon taladwy. Maent yn ymgymryd ag ystod eang o dasgau gweinyddol i gefnogi gwaith y gwasanaeth megis mewnbynnu a monitro data ystadegol, cydlynu hyfforddiant, sicrhau bod yr holl archwiliadau a gwiriadau rheolaidd yn cael eu cwblhau.

Mae'r Rheolwr Gweinyddol yn goruchwylio'r tîm Gweinyddol. Maent yn atebol i'r Rheolwr Gweithrediadau.

## Crynodeb o'r staff presennol

*Mae'r adran hon yn rhoi manylion am nifer y staff, yr oriau sy'n cael eu gweithio, ac ystod y blynyddoedd o brofiad ym mhob swydd.*

Mae'r Pennaeth Busnes Cynorthwyol yn goruchwylio Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru.

Yn adrodd i'r Pennaeth Busnes Cynorthwyol mae Rheolwr Gweithrediadau sy'n goruchwylio'r tîm Maethu sy'n cynnwys Rheolwr Practis a thîm o Weithwyr Cymdeithasol.

Yng Ngwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru mae Gweithwyr Cymdeithasol cymwysedig wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n cyfateb i 2.6 o swyddi amser llawn.

Mae 1 swydd Swyddog Recriwtio a Marchnata, sy'n cyfateb i 0.5 swydd gyfwerth ag amser llawn.

Mae amrywiaeth o arbenigedd yn y tîm o flynyddoedd o brofiad ym maes maethu a gofal cymdeithasol, yn cynnwys gwaith cymdeithasol gofal plant, diogelu, troseddau ieuenctid, derbyn ac asesu, iechyd meddwl preswyl, tai a chamddefnyddio sylweddau.

Mae 2 aelod o'r tîm Cymorth Busnes sy'n cyfateb i 1.8 o swyddi cyfwerth ag amser llawn.

Mae'r **Rheolwr Cymorth Busnes** yn meddu ar NVQ Lefel 3 mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid a Gwasanaethau Ariannol a thystysgrif ILM Lefel 4 mewn Arwein a Rheoli. Mae'n gyflogedig gan Barnardo's ers 2001.

Mae gan **Weinyddwr y Gwasanaeth** BA(Anrh) mewn Arferion Cyfoes ym maes Ysgrifennu ac mae ganddo dystysgrifau Cymorth Cyntaf, hyfforddiant Gweinyddwr Panel CoramBAAF, hyfforddiant Gwneud Penderfyniadau Asiantaeth y Rhwydwaith Maethu, a gweithdai Charms. Mae'n gyflogedig gan Barnardo's ers 2011.

Yn ogystal â'r strwythur staffio uchod, mae'r gwasanaeth yn cyflogi cronfa fach o weithwyr proffesiynol gwaith cymdeithasol cymwysedig annibynnol sy'n ymgymryd ag asesiadau Ffurflen F lle bo angen, yn ogystal â therapyddion proffesiynol sydd ar gael i wneud gwaith uniongyrchol yn unol â chynlluniau gofal a chymorth plant unigol.

# Gwasanaethau a ddarperir

## Y mathau o leoliadau a ddarperir

**Tymor hir/sefydlogrwydd**

Mae lleoliadau ar gael gyda rhieni maeth tymor hir sy'n gallu derbyn plant unigol neu grwpiau o frodyr a chwiorydd. Mae lleoliadau tymor hir yn cael eu paru yn unol â gweithdrefnau'r awdurdod lleoli.

**Seibiant Byr**

Mae gennym rieni maeth sydd wedi'u cymeradwyo i ddarparu gofal seibiant/egwyl fer naill ai'n rheolaidd neu ar gyfer gwyliau untro. Gall y rhain fod ar gyfer plant sy'n byw gartref gyda'u rhieni geni, plant sy'n derbyn gofal gan deuluoedd maeth llawn amser neu blant o asiantaethau maethu eraill.

**Plant ag anghenion cymhleth**

Rydym yn darparu cartrefi arbenigol i blant a phobl ifanc sydd ag anhawster dysgu difrifol, anabledd corfforol neu sydd ag angen gofal meddygol cymhleth. Mae gan y tîm brofiad helaeth o baru plant a phobl ifanc yn llwyddiannus yn y tymor hir yn ogystal â chefnogi plant ar sail Egwyl Fer.

**Lleoliadau Unigol**

Yn cael eu cynnig i blant y mae angen iddynt fod yr unig blentyn sy'n derbyn gofal mewn teulu maeth, neu y mae eu hymddygiad mor heriol fel na all rhieni maeth gynnig digon o gefnogaeth os oes plant eraill yn bresennol.

**Lleoli Brodyr a Chwiorydd**

Mae rhai o'n rhieni maeth yn gallu gofalu am grwpiau mawr o frodyr a chwiorydd er mwyn galluogi plant i aros gyda'i gilydd.

**Pan Fydda i'n Barod (Cymru)**

Gellir trafod y trefniadau hyn gydag Awdurdodau Lleoli i alluogi pobl ifanc i aros yn eu cartref maeth ar ôl iddynt droi'n 18 i'w helpu i sefydlu'u hunain fel oedolion.

**Plant y mae angen gofalu amdanynt mewn cartrefi maethu**

- Plant rhwng 0 a 18 oed, o unrhyw rywedd
- Plant du ac o leiafrifoedd ethnig
- Brodyr a chwiorydd / grwpiau o frodyr a chwiorydd

# Recriwtio, cymeradwyo, adolygu a chefnogi rhieni maeth

*Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth am y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, paratoi, asesu, cymeradwyo a chefnogi darpar rieni maeth.*

Mae polisïau, gweithdrefnau a safonau Barnardo's ar gyfer recriwtio ac asesu rhieni maeth yn unol â rheoliadau a safonau gofynnol Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018. Rheoliad 7 Rhan 1 o Atodlen 1

## Ymholiadau

Ar ôl derbyn ymholiad gan ddarpar riant maeth, mae'r Gwasanaeth yn gofyn am wybodaeth sylfaenol ac yn anfon pecyn gwybodaeth yn cynnwys deunydd am Barnardo's, y Gwasanaeth a maethu yn gyffredinol. Yna trefnir ymweliad cartref cychwynnol gan weithiwr cymdeithasol maethu o'r Gwasanaeth i drafod gwaith y Gwasanaeth yn fanylach ac i ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gan yr ymholwr. Gwneir penderfyniad p'un a yw'r darpar riant maeth yn dymuno bwrw ymlaen a'i fod yn addas i symud ymlaen gan y Rheolwr Practis.

## Asesu a Chymeradwyo

Os tybir bod darpar riant maeth yn addas ac yn dymuno bwrw ymlaen, bydd Ffurflen Cais am Asesiad / Ffurflen Cofrestru Diddordeb yn cael ei llenwi ynghyd â chaniatadau ysgrifenedig i alluogi'r Gwasanaeth Maethu i ganfod a yw'n addas i faethu.

Mae dwy ran i'r broses o asesu addasrwydd person i faethu. Cyfeirir at hyn fel **Cam 1** a **Cham 2**.  Er nad yw hyn yn orfodol yng Nghymru, rydym yn gwneud hyn i gydnabod ei fod yn arfer da yn y gwasanaeth.

Gellir cyflawni'r camau hyn ar yr un pryd, ond rhaid ceisio'r wybodaeth ar gyfer **Cam 1** cyn gynted â phosibl, a rhaid i'r penderfyniad ynghylch a yw ymgeisydd wedi cwblhau Cam 1 yn llwyddiannus gael ei wneud o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i'r asiantaeth faethu gael yr holl wybodaeth sy'n ofynnol ar y cam hwnnw.

## Cam 1

Mae'r wybodaeth a gesglir yng Ngham 1 yn cynnwys:

- Manylion llawn yr ymgeisydd/ymgeiswyr a holl aelodau'r cartref yn ogystal ag unrhyw rai o blant yr ymgeiswyr sy'n byw yn rhywle arall.
- Cynnal archwiliadau gyda'r heddlu drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd / Archwiliadau'r Heddlu ar gyfer holl aelodau'r cartref sy'n 16 oed neu'n hŷn, yn ogystal â chydag Arolygiaeth Gofal Cymru, Gwasanaethau Cymdeithasol ac unrhyw asiantaeth berthnasol arall, er enghraifft Iechyd, Addysg, NSPCC, Arolygiaeth Gofal Cymru, asiantaethau maethu a mabwysiadu blaenorol.
- Mae'n bosibl y bydd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) hefyd yn cael eu cynnal ar unrhyw ymwelydd rheolaidd arall â'r cartref a allai fod â gofal am blant maeth pan fyddant yn cael eu lleoli. Caiff rhai gwiriadau eu hailadrodd bob tair blynedd.
- Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gael archwiliad meddygol sy'n cael ei gwblhau gan ei feddyg teulu, sy'n anfon yr Adroddiad Meddygol wedi'i gwblhau at Gynghorydd Meddygol Rhanbarthol Barnardo's i gael sylwadau am iechyd yr ymgeisydd/ymgeiswyr.
- Gofynnir i'r ymgeisydd hefyd enwi rhwng tri a chwech o ganolwyr personol. Dewisir o leiaf dri ohonynt i ddarparu geirdaon ysgrifenedig a byddant hefyd yn cael eu cyfweld fel rhan o'r broses gymeradwyo. Lle bo'n briodol, rydym hefyd yn gofyn am ganiatâd i gysylltu â chyflogwr presennol neu flaenorol yr ymgeisydd. Byddwn hefyd yn cysylltu â phlant sy'n oedolion a phartneriaid blaenorol.

Bwriad Cam 1 y broses asesu yw rhoi gwybodaeth sylfaenol i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad am addasrwydd yr ymgeisydd (neu beidio) i symud ymlaen i Gam 2 yr asesiad lle cesglir gwybodaeth fanylach.

## **Cam 2**

Os penderfynir ymgymryd â Cham 2 yr asesiad, mae'n ofynnol i'r gwasanaeth maethu gael yr wybodaeth am yr ymgeisydd/ ymgeiswyr mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Manylion am bersonoliaeth a phrofiadau bywyd.
- Cred grefyddol a'r gallu i ofalu am blentyn o unrhyw argyhoeddiad crefyddol penodol.
- Tarddiad hiliol, cefndir diwylliannol ac ieithyddol a'r gallu i ofalu am blentyn o unrhyw darddiad hiliol neu gefndir diwylliannol penodol.

- Cyflogaeth neu alwedigaeth yn y gorffennol a'r presennol, safon byw, gweithgareddau hamdden a diddordebau.
- Profiad blaenorol (os o gwbl) o ofalu am eu plant eu hunain a phlant eraill.
- Sgiliau, cymhwysedd a pherthnasedd posibl i'w gallu i ofalu'n effeithiol am blentyn sy'n dod i fyw gyda nhw.

Bydd gweithiwr cymdeithasol cymwysedig a phrofiadol yn cynnal yr asesiad drwy ymweld â chartref yr ymgeisydd/ymgeiswyr a chyfarfod â phob aelod o'r teulu a chasglu gwybodaeth am brofiad a sgiliau'r ymgeisydd/ymgeiswyr. Bydd yr wybodaeth o ymweliad y gweithiwr cymdeithasol yn cael ei chasglu a bydd yn sail i adroddiad asesu (Ffurflen F CORAMBAAF). Mae'r adroddiad hwn yn cael ei rannu a'i drafod gyda'r ymgeiswyr.

Yn ystod y cyfnod paratoi ar gyfer yr asesiad, darperir hyfforddiant – Sgiliau Maethu – gan y Gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys rôl a chyfrifoldebau rhieni maeth, gweithio gyda gwahanol asiantaethau, a datblygiad plant. Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd fynychu'r hyfforddiant.

## Panel

Cyflwynir yr adroddiad asesu wedi'i gwblhau i Banel Maethu Cymru. Disgwylir i ymgeiswyr fod yn bresennol yn y Panel.

Bydd y Panel wedyn yn gwneud argymhelliad ynghylch addasrwydd yr ymgeiswyr i gael eu cymeradwyo fel rhieni maeth. Bydd yr argymhellion yn cael eu trosglwyddo i Uwch Reolwr yn Barnardo's, a enwebir yn 'Swyddog Penderfyniadau'r Asiantaeth', sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch cymeradwyo ar ran Barnardo's.

Hysbysir ymgeiswyr ar lafar ac yn ysgrifenedig o benderfyniad terfynol Swyddog Penderfyniadau'r Asiantaeth.

## Paru

Mae ein proses baru a'n gweithgareddau cynllunio cyn-lleoli yn ystyried cryfderau, sgiliau a phrofiad penodol ein rhieni maeth.

Mae ein rhaglen hyfforddi a chefnogi ar gyfer rhieni maeth yn ein galluogi i asesu a pharu plant a phobl ifanc â rhieni maeth addas. Mae hyn yn hyrwyddo sefydlogrwydd ac mae bob amser yn canolbwyntio ar y plentyn.

Mae gan bob plentyn a leolir gyda rhieni maeth fynediad at gyfleoedd iechyd, addysg a chyflogaeth yn unol â'u hanghenion asesedig, gan ystyried, er enghraifft, eu hoedran, eu hunaniaeth ddiwylliannol a'u galluoedd gwybyddol a chorfforol.

Disgwylir i Rieni Maeth wneud yn siŵr bod plant yn cael eu cynnwys a'u bod yn gallu cael mynediad at weithgareddau, hobïau a diddordebau unigol, a'u bod yn cael cyfleoedd i gael hwyl ac archwilio eu creadigrwydd a'u perthnasoedd drwy chwarae.

Mae Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru yn darparu llawlyfr i bob rhiant maeth sy'n crynhoi'r holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol gan gynnwys rhoi meddyginiaethau, cofnodi ac ati.

Bydd rhieni maeth cymeradwy yn sicrhau eu bod ar gael i gyfrannu at gynlluniau ac adolygiadau gofal, iechyd ac addysg y plentyn a'u dilyn, ac adrodd ar bob agwedd ar y rhain drwy eu goruchwyliaeth ffurfiol a'u logiau dyddiol.

Mae'n ofynnol i rieni maeth sicrhau bod plant yn eu gofal yn cael y sylw meddygol diweddaraf, a'u bod yn cael eu cefnogi ym mhob ffordd, mewn modd amserol, i fynd i'r afael ag anghenion iechyd, cymryd cyngor a chefnogi ymyriadau meddygol fel y rhagnodir.

Disgwylir i rieni maeth hefyd hyrwyddo datblygiad deallusol, cymdeithasol ac ymddygiadol plant, gan gynnwys eu hanghenion iechyd a lles emosiynol, a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleoli, gweithwyr iechyd ac addysg proffesiynol, a'r gwasanaeth i sicrhau eu bod yn cael eu hadnabod, eu deall a'u rheoli mewn modd amserol a gofalgar.

Mae manylion y gofynion hyn yn cael eu nodi yn y Cytundeb Gofal Maeth wedi'i lofnodi wrth gymeradwyo'r rhieni maeth, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol wedyn.

## Adolygiadau Rhieni Maeth

Cynhelir adolygiadau gan Wasanaeth Maethu Barnardo's, yn unol â gofynion rheoliadol rhiant maeth.

Rhaid cynnal adolygiad cyntaf o fewn 12 mis ar ôl cymeradwyo ac fe'i cyflwynir i'r panel maethu. Cynhelir adolygiadau dilynol bob 12 mis wedi hynny. Rhaid i Barnardo's fod yn fodlon bod y rhieni maeth yn parhau i fodloni'r safonau gofynnol.

Gall adolygiadau ddigwydd ar adegau eraill hefyd, er enghraifft, o ganlyniad i gais i newid y telerau cymeradwyo; yn dilyn cwyn ddifrifol, honiad o gam-drin, neu faterion eraill o bryder difrifol / diogelu; mewn ymateb i newid sylweddol mewn amgylchiadau, fel plentyn rhiant maeth yn dychwelyd adref, problemau perthynas neu wahanu, materion iechyd sylweddol, beichiogrwydd, ac ati.

## Grŵp Cefnogi Rhieni Maeth

Mae Gwasanaeth Maethu Barnardo's yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y mae rhieni maeth yn ei wneud i fywydau plant a phobl ifanc yn eu gofal.

Mae Gwasanaeth Maethu Barnardo's yn cynnig y canlynol i'n holl rieni maeth:

- Goruchwyliaeth ffurfiol, un i un wedi'i chofnodi gan Weithiwr Cymdeithasol dynodedig lle'r adroddir ar gynnydd ym mhob maes o ddatblygiad plentyn a'i gynllun gofal a chymorth, ac y nodir heriau a chamau gweithredu a mynd i'r afael â nhw

- Mynediad at linell gymorth maethu y tu allan i oriau swyddfa 365 diwrnod y flwyddyn
- Cyswllt rheolaidd dros y ffôn gan y gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwylio
- O leiaf un ymweliad dirybudd y flwyddyn
- Digwyddiadau hyfforddi rheolaidd a chyfarfodydd grŵp cefnogi
- Digwyddiadau i blant yng ngofal teuluoedd maeth, plant rhieni maeth a rhieni maeth
- Lle bo'n briodol, a lle bo hynny'n unol â chynllun gofal a chymorth y plentyn, gwasanaeth egwyliau byr i ddarparu profiadau amgen i'r plentyn a seibiant byr i'r prif riant maeth
- Trefniadau cyswllt a gwaith o ansawdd da gydag awdurdodau lleol yn cynnwys mynychu cyfarfodydd perthnasol fel Cynllun Addysg Personol ac adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal
- Lefel o gymorth ariannol sy'n gwerthfawrogi ac yn cydnabod sgiliau, cyflawniadau ac amser rhieni maeth, gan gynnwys ffi gofal maeth a lwfans maethu
- System gyfeillio i alluogi Rhieni Maeth i rannu profiadau a chael cyngor a chefnogaeth

Gall gwasanaethau therapiwtig gael eu darparu gan weithwyr allanol cymwys, wedi'u dilysu, sy'n glynu wrth brotocolau'r gwasanaeth.

## Hyfforddiant i rieni maeth

Mae Gwasanaeth Maethu Barnardo's yn cydnabod bod maethu yn rôl eithriadol o gymhleth a heriol ac rydym wedi ymrwymo i ddarparu hyfforddiant o ansawdd uchel sy'n hygyrch ac yn berthnasol i'n holl rieni maeth.

Darperir hyfforddiant i helpu rhieni maeth i ddatblygu eu rôl fel gofalwyr maeth, i wella gwybodaeth ac i ddiffinio a mireinio'r sgiliau sydd ganddynt eisoes. Mae'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu o fewn sylfaen gwerthoedd benodol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal ac yn cydnabod ac yn dathlu amrywiaeth. Mae'n ceisio sicrhau bod pob rhiant maeth yn gymwys ac yn hyderus i ddarparu gofal diogel ac i amddiffyn plant rhag niwed.

Mae pob rhiant maeth yn cadw cofnod o'r hyfforddiant a wneir yn eu portffolio eu hunain sy'n galluogi'r gwasanaeth i asesu eu haddasrwydd a'u ffitrwydd parhaus. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant gorfodol ar amddiffyn, hyrwyddo a chynnal diogelwch plant drwy hyfforddiant diogelu a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

# Cwynion, honiadau a chwythu'r chwiban

Chwythu'r chwiban yw rhoi gwybod, er lles y cyhoedd, am bryder bod rhywbeth yn digwydd yn Barnardo's na ddylai ddigwydd, neu nad yw'n digwydd er y dylai ddigwydd. Mae'n seiliedig ar Ddeddf Datgelu er Lles y Cyhoedd 1998.

Mae Barnardo's wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ran gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd ac ymarfer a/neu gellir codi pryderon drwy'r broses Chwythu'r Chwiban.

## <u>Cwynion</u>

Nod proses gwyno Barnardo's yw datrys cwyn ar y lefel fwyaf anffurfiol posibl. Gellir cyflwyno cwynion yn ysgrifenedig neu ar lafar i unrhyw aelod o staff hyd at ac yn cynnwys y Prif Swyddog Gweithredol. Mae achwynwyr a staff sy'n destun cwynion yn cael gwybod am hynt yr ymchwiliad ac unrhyw weithdrefnau cysylltiedig, yn amodol ar gyfrinachedd arferol staff.

Dyma'r camau ar gyfer cwyn:

- Cam 1 Datrysiad Lleol
- Cam 2 Ymchwiliad Annibynnol
- Cam 3 Adolygu'r Broses

**Cam 1 Datrysiad Lleol**
Bydd y cam hwn yn cael ei gynnal gan reolwr llinell y person neu'r gwasanaeth y cwynir amdano. Ar y dechrau, rhaid gofyn i'r achwynydd am y canlyniad y mae'n dymuno ei gael.
Fel arfer, dylid cwblhau Cam 1 o fewn 10 diwrnod gwaith.

**Cam 2 Ymchwiliad Annibynnol**
Dylid cwblhau'r ymchwiliad o fewn 25 diwrnod gwaith i ddyddiad y cytundeb y dylai gael ei gynnal. Gellir rhoi estyniadau os cytunir ar hynny gan y rheolwr arweiniol, y Swyddog Cwynion a'r achwynydd a rhaid cofnodi'r rhesymau dros yr oedi.

**Cam 3 Adolygu'r Broses**

Os nad yw'r achwynydd yn fodlon â chanlyniad yr ymchwiliad annibynnol (Cam 2) gallant hwy neu eu heiriolwr ofyn am adolygiad o sut yr ymgymerwyd â hyn ac ar i'w sylwadau gael eu hystyried.

**Honiadau yn erbyn rhieni maeth/staff**

Ymchwilir i honiadau a wneir gan blentyn (neu ar ran plentyn) bob amser drwy Weithdrefnau Diogelu.

# Cyfleusterau a Gwasanaethau

Mae ein swyddfa'n darparu mannau cyfarfod addas ar gyfer hyfforddiant, grwpiau cefnogi, digwyddiadau a thrafodaethau panel a thrafodaethau cyfrinachol.

Mae parcio ar gael yn uniongyrchol y tu allan i'r adeilad, sydd ar agor yn ystod oriau swyddfa.

Mae Barnardo's yn hyrwyddo mynediad i bawb. Mae gan y safle fynediad i bobl anabl, man parcio penodol i'r anabl, lifft a chyfleusterau toiled hygyrch.

Mae Gwasanaeth Maethu Barnardo's Cymru yn gweithredu system gofnodi electronig. Cedwir pob cofnod yn unol â pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol. Defnyddir gwasanaethau amgryptio i rannu gwybodaeth yn electronig.

Mae'r gwasanaeth yn ddi-bapur a darperir offer electronig a chymorth technegol priodol i'r holl staff.

# Trefniadau llywodraethu a monitro ansawdd

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cadw trosolwg ar reolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yn unol â'i gynllun busnes blynyddol. Gwneir hyn drwy ymgysylltu â phlant, rhieni maeth a staff, dadansoddi data, mynychu paneli maethu, ymweld â'r gwasanaeth a chasglu;

1) adroddiad adolygu ansawdd gofal ar gyfer Barnardo's sy'n cael ei gwblhau bob chwe mis ac sy'n cynnwys asesiad o safon y gofal ac argymhellion cysylltiedig;
2) adroddiad ar ba mor ddigonol yw'r adnoddau sydd ar gael (a elwir yn fewnol yn QPA) bob chwarter;
3) datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru (AGC).

Mae amrywiaeth o systemau ar waith i fonitro a gwerthuso darpariaeth gwasanaethau maethu Barnardo's, er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol a bod yr ansawdd o safon briodol.

Mae'r trefniadau sydd ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth yn cynnwys y canlynol:

- Adolygiadau Blynyddol rhieni maeth
- Ymgynghori â rhieni maeth
- Ffurflenni diwedd lleoliad rhieni maeth
- Ymgynghori â phlant
- Ffurflenni Adborth Plant
- Adborth gan weithwyr awdurdodau lleol cyn adolygiadau rhieni maeth
- Adborth gan rieni maeth, lle bo hynny'n briodol
- Adborth gan weithwyr awdurdodau lleol mewn adolygiadau plant a gweithwyr proffesiynol eraill fel iechyd ac addysg.
- Adborth gan blant o sesiynau cyfranogi unigol a grŵp
- Cynlluniau datblygu personol blynyddol staff
- Goruchwylio rhiant/rhieni maeth bob mis
- Goruchwylio staff ac adborth ganddynt
- Adborth gan rieni maeth ynghylch hyfforddiant
- Adborth gan randdeiliaid allweddol
- Adborth gan y Panel Maethu
- Archwilio Ffeiliau

- Adolygiad Blynyddol o'r Asesiad Ansawdd (4C's)
- Adolygiadau perfformiad gwasanaeth chwarterol
- Monitro Allanol drwy brosesau monitro'r ALl/Fframwaith
- Arolygu allanol drwy gyrff rheoleiddio Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

# Rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau

**Corff Rheoleiddio:** Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
**Rhif Cofrestru:** W010000722/M001/0002

**Manylion cyswllt**
Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1U
Ffôn: 0300 7900 126

## Manylion cyswllt perthnasol eraill

**Chwythu'r chwiban**

Safecall sy'n darparu ein gwasanaeth Chwythu'r Chwiban ac mae eu manylion ar gael isod. Mae'r ddolen yma hefyd yn egluro sut rydym yn delio ag unrhyw adroddiadau a gawn.

**Sut mae cysylltu â Safecall?**

Gallwch chi gysylltu â Safecall ar 0800 915 1571 neu ar-lein drwy **Roi gwybod am Bryder Chwythu'r Chwiban**'. Ni fydd modd olrhain eich adroddiad ac mae gan Safecall weithredwyr wedi'u hyfforddi i'ch cefnogi.

Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim, mae'n gyfrinachol ac yn agored 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

**Cwynion**
Barnardo's Youth Village
Hudson Street,
North Shields,
NE30 1DL
E-bost: cs.complaints@barnardos.org.uk

**Barnardo's Cymru**
Tŷ Britannia
Heol Van
Caerffili
CF83 3GG

Ffôn: 02920 484316
E-bost: cs.complaints@barnardos.org.uk

**Yr Ombwdsmon**

Mae gan achwynwyr yr hawl i gysylltu â'r corff Arolygu ar gyfer gwaith mabwysiadu, Arolygiaeth Gofal Cymru, neu'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus os ydynt yn dal yn anfodlon.

Gellir cysylltu â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ
Ffôn
0300 790 0203
I gael rhagor o wybodaeth cliciwch yma.

E-bost: ask@ombudsman.wales

**Comisiynydd Plant Cymru**
Gellir dod o hyd i ffynhonnell arall o gymorth i blentyn neu berson ifanc drwy'r Comisiynydd Plant:

Comisiynydd Plant Cymru
Tŷ Ystumllwynarth
Heol Phoenix
Llansamlet
Abertawe
SA7 9FS
01792 765600
post@childcomwales.org.uk

Rheolwr Contractau
Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM) Cymru
21 Windsor Place
Caerdydd
CF10 3BZ
Ffôn:
E-bost:
www.independentreviewmechanism.org.uk